


Amddiffyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cylchlythyr 34/02

Dyddiad Cyhoeddi: Hydref 2002

Yn disodli: Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 54/93 Protection of
Children: Disclosure of Criminal background of those with
access to children

**Cylchlythyr
Arweiniad**



**Cynhwysiant
Cymdeithasol**

Cynulleidfa:	Penaethiaid, Cadeiryddion Llywodraethwyr, Awdurdodau Addysg Lleol, Ysgolion Annibynnol, Sefydliadau Addysg Bellach, Asiantaethau Athrawon Llanw, Darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ac Adrannau Addysg mewn Prifysgolion yng Nghymru
Braslun:	Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys manylion ynghylch yr archwiliadau y dylid eu gwneud cyn penodi unrhyw berson a fydd yn dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc. Maent yn egluro rôl y Biwro Cofnodion Troseddol ac yn nodi ym mha Amgylchiadau y gellir cyfeirio enw person i sylw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Y camau y mae angen eu cymryd:	Dylai cyflogwyr roi sylw i'r wybodaeth sydd yn y canllawiau hyn.
Gwybodaeth bellach:	Mr David Clayton Yr Is-adran Cymorth Disgyblion Adran Hyfforddiant ac Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: (029) 20826073 Ffacs: (029) 20801044 E-bost: david.clayton@wales.gsi.gov.uk
Copïau Pellach:	Oddi wrth Miss Ruth Gittins yn y cyfeiriad uchod Ffôn: (029) 20 82 3835
Dogfennau Cysylltiedig:	Guidance on Pre-appointment checks by the Criminal Records Bureau (CRB) for School Governors Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Cylchlythyr 33/02 Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 52/95 Protecting children from abuse: the role of the education service Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 38/96 Defnyddio Athrawon Cyflenwi ar Nodiadau Canllaw cysylltiedig ar gyfer Busnesau ac Asiantaethau sy'n Cyflogi Athrawon Cylchlythyr DfEE 4/99 Physical and Mental Fitness to Teach of Teachers and of Entrants to Initial Teacher Training Llythyr cyfarwyddyd 11 Chwefror 2000 at gyflogwyr athrawon – Adrodd am achosion o gamymddwyn ymhlith athrawon Llythyr cyfarwyddyd 31 Hydref 2000 at gyflogwyr athrawon – Effaith Rheoliadau Cyfyngu Cyflogaeth (Cymru) 2000
Dogfennau a ddisodlwyd:	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 54/93 Protection of Children: Disclosure of Criminal background of those with access to children

Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg

CRYNODEB

Mae'r Canllawiau hyn yn cynnig cyngor i gyflogwyr yn y gwasanaeth addysg ynghylch atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r Canllawiau mewn tair rhan.

- Mae Rhan 1 yn cynnwys manylion am yr archwiliadau y dylid eu gwneud i gefndir athrawon, gweithwyr eraill a gwirfoddolwyr a fydd yn dod i gysylltiad â phlant cyn iddynt gael eu penodi.
- Mae Rhan 2 yn egluro rôl y Biwro Cofnodion Troseddol ac yn cynnwys canllawiau yn ymwneud â chael archwiliadau o gofnodion troseddol, archwiliadau Rhestr 99 ac archwiliadau o Restr Deddf Amddiffyn Plant yr Adran Iechyd drwy wasanaeth Dadleniadau'r Biwro.
- Mae Rhan 3 yn egluro ei bod yn ofynnol hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch unigolion sy'n camymddwyn, ac yn nodi'r trefniadau ar gyfer gwneud hynny. Mae hefyd yn cynnwys cyngor ynghylch atgyfeirio i sylw'r Cynulliad oherwydd pryder ynghylch athro neu athrawes sy'n seiliedig ar resymau meddygol.

Mae'r Atodiadau i'r Canllawiau yn cynnwys y diffiniad o swyddi rheoleiddiedig sydd yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000, a chanllawiau ar gyfer darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ac asiantaethau a busnesau cyflogi athrawon.

Y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Canllawiau hyn yw:

- Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974;
- adrannau 218(6), (6ZA), (6A) a (6B) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988;
- adran 15 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;
- Rhan V o Ddeddf Heddlu 1997;
- adran 6 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999, ac
- adrannau 35 a 36 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000.

Y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999, Rheoliadau Addysg (Cyfyngu ar Gyflogaeth) 2000, Rheoliadau Addysg (Cyfyngu ar Gyflogaeth) (Cymru) 2000, Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001 a Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975, fel y'i newidiwyd.

CYNNWYS

PARAGRAFFAU

RHAN 1: ARCHWILIADAU CYN PENODI

1-2

Pa archwiliadau y dylid eu gwneud i gefndir pobl a fydd yn gweithio gyda phlant?	3
Pa archwiliadau ychwanegol y dylid eu gwneud i gefndir athrawon?	4-5
Pa archwiliadau y dylid eu gwneud i gefndir athrawon o wledydd tramor?	6-11
Pa archwiliadau y dylid eu gwneud i gefndir pobl sy'n gwneud cais am le ar gwrs hyfforddi athrawon?	12-13
Beth ddylai darpar gyflogwr ei wneud os gwelir bod cais ymgeisydd yn dwyllodrus neu'n cynnwys gwybodaeth anghywir?	14

RHAN 2: Y BIWRO COFNODION TROSEDDOL

Beth mae'r Biwro'n ei wneud?	15
Beth yw'r gwahanol fathau o Ddadleniadau?	16-17
Beth yw'r gwasanaeth 'siop bob dim'?	18-19
Pwy ddylai gofrestru gyda'r Biwro?	20
A ddylai ysgolion gofrestru gyda'r Biwro?	21-22
Faint o amser fydd y Biwro'n ei gymryd i brosesu cais am Ddadleniad?	23
I bwy y dylid gofyn iddo/iddi wneud cais am Ddadleniad?	24-25
Pa fath o Ddadleniad sy'n briodol i staff addysg?	26-27
Oes angen talu am Ddadleniad?	28
Beth mae gwybodaeth ychwanegol yn ei olygu?	29
A all person neu gorff cofrestredig rannu gwybodaeth o Ddadleniad?	30-32
A ddylid cael Dadleniadau ar gyfer y staff presennol?	33
Pa mor aml y dylai pobl ddisgwyl cael Dadleniad?	34
Sut all ysgolion fod yn sicr bod athrawon llanw wedi cael Dadleniad?	35
Sut fydd cael archwiliadau Rhestr 99 ar gyfer pobl nad ydynt yn gymwys ar gyfer Dadleniadau Safonol neu Fanwl?	36
Sut fydd cyflogwr yn penderfynu a yw cofnod troseddol person yn berthnasol?	37-39
Sut mae cael mwy o wybodaeth am y Biwro?	40

RHAN 3: RHOI GWYBOD AM UNIGOLION I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Pa achosion y dylid rhoi gwybod amdanynt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru?	41-45
Pa wybodaeth y dylid ei darparu i'r Cynulliad?	46
Sut mae'r Cynulliad yn delio gyda'r adroddiadau hyn?	47

Beth am athrawon sydd wedi eu cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru?	48
A ddylid rhoi gwybod am unrhyw achosion yn uniongyrchol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru?	49
A fydd gwybodaeth sy'n cael ei darparu i'r Cynulliad a/neu'r Adran Addysg a Sgiliau yn cael ei dadlennu i rywun arall?	50-52
A fydd cyflogwyr yn cael gwybod beth yw canlyniad adroddiad?	53
Sut mae'r Cynulliad yn delio gyda'r achosion hyn?	54
Atodiad A: Y diffiniad o swyddi rheoleiddiedig sydd yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000	
Atodiad B: Canllawiau yn ymwneud â Dadleniadau ar gyfer Sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a Sefydliadau Addysg Uwch eraill yng Nghymru	
Atodiad C: Canllawiau ar gyfer Asiantaethau a Busnesau Cyflogi Athrawon: Archwiliadau Cofnodion Troseddol a Rhestr 99 drwy'r Biwro Cofnodion Troseddol	
Atodiad CH: Archwilio Cefndir Troseddol posibl Athrawon o wledydd tramor	

RHAN 1: ARCHWILIADAU CYN PENODI

1. Mae'n bwysig bod archwiliad trylwyr yn cael ei wneud i gefndir unrhyw un a fydd yn gweithio mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach neu sefyllfaoedd addysgol eraill e.e. canolfannau ieuencid (gan gynnwys colegau chweched dosbarth)¹, er mwyn atal pobl anaddas rhag mynd at blant a phobl ifanc ac er mwyn sicrhau bod y proffesiwn addysgu yn broffesiwn y gellir ymddiried ynddo.

2. Mae'r rhan hon o'r Canllawiau yn cynnwys manylion am yr archwiliadau y dylid eu gwneud i gefndir pobl y bydd eu gwaith yn dod â hwy i gysylltiad â phlant a phobl ifanc cyn iddynt gael eu penodi. Mae rhai o'r archwiliadau hyn yn orfodol dan y gyfraith, tra bo eraill yn cael eu hargymell yn gryf fel ymarfer da. Dylai'r holl archwiliadau perthnasol fod wedi eu cwblhau a'u bodloni cyn i berson ddechrau ar ei swydd.

Pa archwiliadau y dylid eu gwneud i gefndir pobl a fydd yn gweithio gyda phlant?

3. Cyngor Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylid gwneud yr archwiliadau canlynol i gefndir pob person (gan gynnwys gwirfoddolwyr) sy'n ceisio cael eu penodi i swyddi a fydd yn dod â hwy i gysylltiad â phlant a phobl ifanc. Dylid gwneud archwiliadau i gefndir athrawon llanw pan gânt eu recriwtio i weithio i fusnes neu asiantaeth gyflogi.

- **Adnabod:** Mae'n bwysig sicrhau mai'r person dan sylw yw'r un y mae ef neu hi yn dwyn ei enw. Mewn rhai achosion bydd yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach yn adnabod yr ymgeisydd, neu bydd yn cael ei gyflogi gan yr awdurdod addysg lleol neu sefydliad cyfagos. Os nad yw, dylai'r cyflogwr ofyn am gael gweld prawf o bwy yw'r ymgeisydd, fel tystysgrif geni, trwydded yrru neu basport. Os yw athro/athrawes neu weithiwr yn cael ei ddarparu gan drydydd parti, fel busnes neu asiantaeth gyflogi, dylai'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach wneud yn siwr mai'r sawl sy'n dod atynt hwy yw'r sawl a gyfeiriwyd gan y busnes neu'r asiantaeth gyflogi. D.S. Bydd angen prawf i gadarnhau pwy yw unigolyn bob amser pan wneir cais i'r Biwro Cofnodion Troseddol am Ddadleniad Safonol neu **Fanwl**.
- **Cymwysterau Academaidd:** Dylai cyflogwyr bob amser wneud yn siwr bod yr ymgeisydd wedi cael y cymwysterau academaidd neu broffesiynol y mae'n honni eu bod ganddo ar ei ffurflen gais drwy ofyn am gael gweld y dystysgrif neu'r ddiploma berthnasol, neu lythyr cadarnhad gan y sefydliad dyfarnu. Os nad yw'r dogfennau gwreiddiol ar gael, rhaid i gyflogwyr weld copi priodol wedi ei ardystio. Yn achos athrawon, bydd archwiliad cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cadarnhau a oes gan athro neu athrawes Statws Athro Cymwysedig.
- **Geirda Proffesiynol a Thystlythyrau i Gymeriad:** Dylid gofyn am eirida bob amser, a hynny'n uniongyrchol gan y canolwr. Nid yw'n ddoeth dibynnu dim ond ar eiridaon neu dystlythyrau a ddarperir gan yr ymgeisydd. Rydym yn eich cynghori'n gryf i ofyn am eirida gan y cyflogwr presennol neu'r cyflogwr diweddaraf.

¹ Mae'r cyfeiriadau at sefydliadau addysg bellach yn y Canllawiau hyn yn cynnwys colegau chweched dosbarth.

- **Cefndir Cyflogaeth Flaenorol:** Dylai cyflogwyr bob amser ofyn am wybodaeth am waith blaenorol a chael eglurhad boddhaol ar gyfer unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. Os nad yw ymgeisydd am swydd addysgu neu swydd arall mewn sefyllfa addysgol yn cael ei gyflogi fel athro/athrawes neu weithiwr ar hyn o bryd, mae hefyd yn werth cysylltu â'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod addysg lleol diweddaraf a fu'n ei gyflogi ef neu hi, er mwyn cadarnhau manylion ynghylch ei gyflogaeth a'i resymau dros adael. Ar gyfer athro neu athrawes o wlad dramor, gweler Paragraffau 6-11 ac Atodiad CH.
- **Archwilio Cofnodion Troseddol:** Dylid gofyn i bob ymgeisydd am swyddi sydd wedi eu heithrio o ddarpariaethau Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 ddatgan unrhyw gollfarnau, rhybuddion neu rwymedigaethau a gawsant, gan gynnwys unrhyw rai a fyddai'n cael eu hystyried fel rhai sydd wedi "darfod" dan y Ddeddf mewn amgylchiadau eraill.

Os yw person sy'n byw yn y DU, neu sydd wedi bod yn byw yn y DU, yn cael ei ddewis yn ddiweddarach ar gyfer ei benodi, dylai'r cyflogwr ofyn iddo wneud cais i'r Biwro Cofnodion Troseddol am Ddadleniad er mwyn cadarnhau ei ddatganiad (gweler Rhan 2 am fwy o wybodaeth ynghylch y gwasanaeth Dadleniadau).

I ddibenion gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yr eithriadau i Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yw'r swyddi a nodir yn Adran 36 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 (gweler Atodiad A) ac unrhyw waith lle bydd cyswllt rheolaidd gyda phlant mewn sefydliad addysg bellach neu sefyllfa addysgol. Mae'r swyddi'n cynnwys:

- unrhyw waith mewn ysgol neu goleg chweched dosbarth, ar safle gofal dydd, neu mewn cartref neu ysbyty plant;
- unrhyw swydd y mae'r dyletswyddau arferol yn cynnwys gofalu am blant dan 18 oed, eu hyfforddi, eu goruchwyllo neu fod yn gyfrifol amdanynt ar eich pen eich hun;
- unrhyw swydd lle ceir cyswllt heb oruchwyliaeth â phlentyn dan drefniadau sy'n cael eu gwneud gan rieni neu warcheidwad y plentyn, ysgol y plentyn neu ddarparwr gofal dydd cofrestredig;
- swydd fel llywodraethwr coleg chweched dosbarth.
- **Rhestr 99:** Dogfen gyfrinachol sy'n cael ei chadw gan yr Adran Addysg a Sgiliau yw'r Rhestr 99, ac mae'n cynnwys enwau, dyddiadau geni, rhifau yswiriant cenedlaethol a chyfeirnodau addysgu pobl y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi eu gwahardd neu eu rhwystro rhag ymwneud â chyflogaeth berthnasol². Mae Rheoliadau Addysg (Cyfyngu ar Gyflogaeth) 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr archwilio'r Rhestr er mwyn sicrhau nad

² Mae cyflogaeth berthnasol yn golygu:

- a) unrhyw gyflogaeth gan awdurdod addysg lleol, neu berchennog ysgol annibynnol, fel athro neu athrawes, neu'n weithiwr gyda phlant neu bobl ifanc dan 19 oed;
- b) cyflogaeth gan unrhyw gorff arall fel athro neu athrawes mewn ysgol gynaleddig, ysgol arbennig anghyaledig, neu sefydliad addysg bellach; a
- c) cyflogaeth gan gorff llywodraethu ysgol gynaleddig, ysgol arbennig anghyaledig neu sefydliad addysg bellach fel gweithiwr gyda phlant neu bobl ifanc dan 19 oed.

Mae hefyd yn cynnwys pobl sy'n darparu eu gwasanaethau fel athrawon mewn ysgolion, ond nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol dan gontract, fel athrawon llanw ac athrawon-fyfyrwyr. Mae gweithiwr gyda phlant neu bobl ifanc yn golygu person nad yw'n athro neu athrawes, ond sydd â'i waith yn dod ag ef neu hi i gysylltiad rheolaidd â phlant neu bobl ifanc dan 19 oed.

ydynt yn penodi rhywun i swydd y maent wedi eu gwahardd rhag ei dal. Ni chaniateir i berson y mae ei gyflogaeth wedi ei chyfyngu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau weithio mewn swydd a fyddai'n golygu bod amodau'r cyfyngiad hwn yn cael eu torri.

Pan fo person yn gwneud cais am Ddadleniad Safonol neu Fanwl er mwyn cadarnhau ei addasrwydd i weithio gyda phlant, bydd y Dadleniad yn nodi a yw ei enw ef neu hi ar Restr 99 a/neu Restr y Ddeddf Amddiffyn Plant sy'n cael ei chadw gan yr Adran Iechyd (gweler Rhan 2 am fwy o wybodaeth ynghylch y gwasanaeth Dadleniadau).

- **Iechyd:** Dylai unrhyw un sy'n cael ei benodi i swydd sydd â chyswllt rheolaidd gyda phlant neu bobl ifanc fod yn addas o safbwynt meddygol (gweler Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999).

Pa archwiliadau ychwanegol y dylid eu gwneud i gefndir athrawon?

4. Mae'n ofynnol i bob athro neu athrawes gyda Statws Athro Cymwysedig sy'n dysgu mewn ysgolion cynaledig, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig anghynaleddig yng Nghymru gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Rhaid i gyflogwyr gysylltu â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru er mwyn canfod a yw athrawon sy'n ymgeisio am swyddi mewn ysgolion o'r fath wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor.

Os yw athrawon wedi eu cofrestru mae hyn yn golygu:

- bod ganddynt Statws Athro Cymwysedig. Rhaid i unrhyw un a benodir neu a gyflogir i ddysgu mewn ysgol gynaleddig neu ysgol arbennig anghynaleddig naill ai fod â Statws Athro Cymwysedig neu ddod dan un o'r eithriadau a nodir yn Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999 (gweler troednodiadau 1 a 2);
- eu bod wedi talu tâl cofrestru blynyddol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
- nad ydynt wedi eu cyfyngu neu eu gwahardd gan yr Adran Addysg a Sgiliau, er enghraifft drwy Restr 99 neu gyfnod prawf a fethwyd;
- nad ydynt wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr o ganlyniad i gyfyngiad a roddwyd arnynt gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru neu unrhyw Gyngor Addysgu Cyffredinol arall.

Yn ychwanegol at hyn, rhaid i gyflogwyr sicrhau bod archwiliadau'n cael eu gwneud er mwyn cadarnhau pwy yw athrawon, sicrhau nad oes ganddynt gofnodion troseddol, sicrhau eu bod yn addas o safbwynt meddygol, a bod ganddynt eiradau a chyflogaeth flaenorol ddibynadwy yn unol â'r hyn a nodir ym mharagraff 3.

Mae Deddf Addysg 2002 yn cynnwys darpariaethau sy'n nodi y dylai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru archwilio addasrwydd athrawon sy'n gwneud cais i gael eu cofrestru. Pan fydd y darpariaethau hyn mewn grym, gall y Cyngor benderfynu y bydd, fel rhan o unrhyw archwiliad i addasrwydd unigolyn, yn cysylltu â'r Biwro Cofnodion Troseddol i archwilio cofnodion troseddol pob athro neu athrawes newydd sy'n gwneud cais am gael cofrestru, ac athrawon sy'n gwneud cais am gael ailgofrestru ar ôl cyfnod allan o'r gwasanaeth.

Cynefino

5. Mae'r Cynulliad wedi ymgynghori ynghylch cynlluniau i gyflwyno Blwyddyn Gynefino statudol ar gyfer athrawon o fis Medi 2003 ymlaen. Cafwyd ymateb ffafriol ac, yn amodol ar y ddeddfwriaeth sydd ei hangen, rhaid i bob athro neu athrawes sy'n cael Statws Athro Cymwysedig ar ôl 1 Medi 2003, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi dilyn rhaglen hyfforddi yn y gweithle, gwblhau cyfnod cynefino statudol yn llwyddiannus os ydynt am barhau i weithio mewn ysgol gynaleddig neu ysgol arbennig anghyngedig yng Nghymru.

TROEDNODYN 1

Yr unig athrawon gyda Statws Athro Cymwysedig nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru gyda **Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw:**

- athrawon sy'n cael eu cyflogi dim ond er mwyn darparu addysg ran-amser i bersonau sydd dros yr oed ysgol gorfodol ;
- neu'r rhai hynny sy'n darparu addysg llawn-amser i bersonau 19 oed a throsodd yn unig ;
- neu'r ddau fath o addysg ran-amser a llawn-amser.

TROEDNODYN 2

Y rhai hynny sydd wedi eu heithrio rhag gorfod cael Statws Athro Cymwysedig yw:

- athrawon dan hyfforddiant sy'n gwneud ymarfer dysgu;
- athrawon sy'n gweithio er mwyn cael Statws Athro Cymwysedig drwy raglen yn y gweithle;
- athrawon sydd wedi eu hyfforddi dramor ond sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau amser – gweler paragraff 14; ac
- athrawon heb gymwysterau (e.e. hyfforddwyr), lle mae'r ysgol wedi methu â dod o hyd i athro cymwysedig gyda'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol.

Nid yw'r eithriadau hyn yn berthnasol i ymgeiswyr am swyddi penaethiaid a dirprwy benaethiaid mewn ysgolion cynaleddig: mae'n rhaid iddynt hwy gael Statws Athro Cymwysedig. Os oes gan ymgeisydd gyfeirnod gan yr Adran Addysg a Sgiliau nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod ganddo Statws Athro Cymwysedig.

Pa archwiliadau y dylid eu gwneud i gefndir athrawon o wledydd tramor?

(Dylai'r adran hon wahaniaethu rhwng athrawon o Ardal Economaidd Ewrop (AEE) ac athrawon o'r tu allan i AEE)

6. Yn yr un modd dylid gwneud archwiliadau i gefndir athrawon o wledydd tramor cyn eu penodi. Fodd bynnag, os nad yw ymgeisydd wedi bod yn byw yn y DU o'r blaen, ni fydd unrhyw ddiben gofyn am Ddadleniad drwy'r Biwro Cofnodion Troseddol pan fydd yn cyrraedd y wlad hon. Ni fydd gan y person gofnod troseddol yn y wlad hon, ac ni fydd ei enw ar y Rhestr 99 nac ar Restr y Ddeddf Amddiffyn Plant.

7. Gall pobl o rai gwledydd eraill wneud cais i'w heddlu eu hunain am dystysgrif ymddygiad da. Mae'r wybodaeth sydd yn y tystysgrifau hyn yn amrywio o'r naill wlad i'r llall: mae rhai yn ddyfyniad llawn o'r cofnod troseddol; mae eraill yn ddyfyniadau rhannol.

8. Nid oes tystysgrifau ymddygiad da ar gael yn Iwerddon ac nid oes unrhyw drefniadau mewn perthynas ag amddiffyn plant ar gyfer archwilio cefndir troseddol gydag awdurdodau Iwerddon. Er hyn, mae llawer o ymgeiswyr o Iwerddon wedi derbyn hyfforddiant a/neu wedi bod yn byw yn y DU am rai blynyddoedd, ac mewn amgylchiadau o'r fath gellir gofyn i'r heddlu lleol perthnasol archwilio i'w cefndir.

9. Ceir mwy o fanylion am y wybodaeth am gofnodion troseddol y gellir ei chael gan heddluoedd tramor yn Atodiad CH. Mae'r Biwro Cofnodion Troseddol yn ymchwilio i'r sefyllfa mewn gwledydd eraill ac mae'n debyg y bydd yn cyhoeddi deunydd mwy cyfredol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

10. Os yw ymgeisydd yn dod o wlad lle na ellir archwilio cofnodion troseddol i ddibenion amddiffyn plant, rhaid i gyflogwyr fod yn fwy gofalus wrth ofyn am eirdaon a gwneud archwiliadau eraill i gefndir person.

11. Dylid nodi hefyd bod athrawon sydd wedi eu hyfforddi dramor ar hyn o bryd wedi eu heithrio o'r gofyniad i fod wedi eu cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru neu i fod â Statws Athro Cymwysedig er bod eu cyflogaeth yn ddarostyngedig i gyfyngiadau amser – gweler Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon a Safonau Iechyd) (Cymru) 1999. Fodd bynnag, gall athro neu athrawes o AEE gael Statws Athro Cymwysedig ar ôl gwneud cais amdano neu gall athro neu athrawes sydd wedi ei hyfforddi dramor fynd ymlaen i gael Statws Athro Cymwysedig drwy ddilyn y Rhaglen Athrawon Graddedig, ac mewn achos o'r fath, byddai angen i'r athro neu'r athrawes wedyn gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Pa archwiliadau y dylid eu gwneud i gefndir pobl sy'n gwneud cais am le ar gwrs hyfforddi athrawon?

12. Dylid gofyn i bobl sy'n gwneud cais am le ar gyrsiau hyfforddi athrawon a ddechreuodd ar ôl Mawrth 2002 wneud cais am Ddadleniad Manwl ar ôl iddynt gael cynnig amodol o le mewn sefydliad hyfforddi athrawon. Ni ddylid gwneud

ôl-archwiliadau i gefndir myfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau cyn cyflwyno'r gwasanaeth Dadleniadau ym Mawrth 2002.

13. Ceir canllawiau ar gyfer darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yn ymdrin â chael Dadleniadau ar gyfer pobl sydd wedi cael cynnig amodol o le ar gwrs hyfforddi athrawon yn Atodiad B.

Beth ddylai darpar gyflogwr ei wneud os gwelir bod cais ymgeisydd yn dwyllodrus neu'n cynnwys gwybodaeth anghywir?

14. Gall twyll neu ddichell fwriadol ddifrifol mewn perthynas â chais am waith fod yn drosedd (Cael Mantais Ariannol trwy Ddichell). Mewn achosion o'r fath dylai'r cyflogwr ystyried hysbysu'r heddlu a'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch y mater (gweler Rhan 3 am fwy o wybodaeth ynghylch rhoi gwybod am gamymddygiad).

RHAN 2: Y BIWRO COFNODION TROSEDDOL

Beth mae'r Biwro'n ei wneud?

15. Mae'r Biwro Cofnodion Troseddol yn ceisio helpu cyflogwyr a mudiadau gwirfoddol i wneud penderfyniadau diogelach wrth recriwtio drwy ganfod ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith, yn enwedig gwaith gyda phlant neu oedolion hawdd eu niweidio, drwy wasanaeth a elwir yn wasanaeth Dadleniadau. Gall cyflogwyr ofyn i ymgeiswyr llwyddiannus wneud cais i'r Biwro am Ddadleniad, a bydd y Dadleniad hwn yn cynnwys gwybodaeth am eu cofnod troseddol. Mae'r Biwro'n gwneud tri math o Ddadleniad, gan ddibynnu ar fanylder yr archwiliad sydd ei angen. Pennir manyldeb yr archwiliad gan ddyletswyddau'r swydd neu'r gwaith penodol. Bydd y Biwro'n dweud wrth yr ymgeiswyr a'r cyflogwyr pa fath o Ddadleniad sy'n briodol mewn achosion unigol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae angen yr archwiliadau manylaf (Dadleniadau Manwl) ar gyfer gwaith gyda phlant neu oedolion hawdd eu niweidio.

Beth yw'r gwahanol fathau o Ddadleniadau?

16. Ceir tri math o Ddadleniad:

Dadleniad Sylfaenol yn dangos manylion am unrhyw gollfarnau nad ydynt wedi dar fod dan Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyd 1974. Maent ar gael i unigolion sy'n talu'r ffi ac yn dangos prawf sy'n cadarnhau pwy ydynt. Nid yw Dadleniadau Sylfaenol yn briodol i bobl a fydd yn gweithio gyda phlant neu oedolion hawdd eu niweidio.

Dadleniadau Safonol yn dangos collfarnau a rhybuddion sydd wedi dar fod yn ogystal â'r rhai nad ydynt wedi dar fod. Dim ond i ymgeiswyr sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant cyflogedig neu wirfoddol mewn galwedigaeth sydd wedi ei heithrio o Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyd 1974 y mae'r Dadleniadau hyn ar gael. Mae hyn yn cynnwys gwaith cyflogedig neu wirfoddol gyda phlant dan 18 oed, a byddant hefyd yn berthnasol i bobl sy'n ymuno â galwedigaethau penodol fel y proffesiwn cyfreithiol a chyfrifyddion.

Dadleniadau Manwl yn dangos collfarnau a rhybuddion sydd wedi dar fod yn ogystal â'r rhai nad ydynt wedi dar fod. Gall yr heddlu hefyd ddarparu manylion am ryddfarnau neu wybodaeth ddi-gollfarn a gedwir ar gofnodion yr heddlu lleol, sy'n berthnasol i'r swydd neu'r gwaith gwirfoddol a geisir. Dim ond i bobl sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant cyflogedig neu wirfoddol mewn swydd y mae ei dyletswyddau arferol yn cynnwys gofalu'n rheolaidd am blant dan 18 oed neu oedolion hawdd eu niweidio, eu hyfforddi, eu goruchwyllo, neu fod yn gyfrifol amdanynt ar eich pen eich hun y mae Dadleniadau Manwl ar gael, ond maent hefyd yn berthnasol i bobl sy'n ymuno â'r proffesiwn meddygol, pobl sy'n gwneud cais am benodiadau barnwrol ac ar gyfer trwyddedau statudol penodol.

17. Rhaid i Ddadleniadau Safonol a Manwl gael eu harwyddo gan yr ymgeisydd a'u hawdurdodi gan gyflogwr neu berson arall sydd wedi ei gofrestru gyda'r Biwro. Darperir y Dadleniad gwreiddiol i'r ymgeisydd ac anfonir copi yr un pryd at y person neu'r corff a awdurdododd y cais, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw dwyll yn digwydd.

Beth yw'r gwasanaeth "siop bob dim"?

18. Bydd y Biwro'n gweithredu fel pwynt mynediad canolog i wybodaeth am gofnodion troseddol a gedwir ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, ar Restr 99 yr Adran Addysg a Sgiliau a Rhestr Deddf Amddiffyn Plant yr Adran Iechyd, sy'n cynnwys manylion am bobl sy'n cael eu hystyried yn anaddas i weithio mewn sefydliadau gofal plant. Gall Dadleniadau hefyd gynnwys gwybodaeth yn nodi a yw person yn ddarostyngedig i orchymyn gwahardd dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000, sy'n ei wahardd rhag gwneud unrhyw waith gyda phlant a phobl ifanc.

19. Pan fo rhywun yn gwneud cais am Ddadleniad Safonol neu Fanwl mewn perthynas â gwaith gyda phlant neu gysylltiad rheolaidd ag oedolion hawdd eu niweidio, bydd y Dadleniad yn cynnwys gwybodaeth a fydd yn nodi a yw ei enw ef neu hi ar Restr 99 yr Adran Addysg a Sgiliau, neu ar Restr Deddf Amddiffyn Plant yr Adran Iechyd, neu a oes gorchymyn gwahardd wedi ei wneud i'w wahardd ef neu hi rhag gwneud unrhyw waith gyda phlant a phobl ifanc.

Pwy ddylai gofrestru gyda'r Biwro?

20. Cred y Cynulliad y bydd, neu y gallai fod angen i'r mudiadau a'r sefydliadau canlynol yn y sector addysg gofrestru er mwyn awdurdodi ceisiadau am Ddadleniadau Safonol a Manwl:

- AALLau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau personél i ysgolion;
- awdurdodau esgobaethol sy'n darparu gwasanaethau personél i ysgolion a gynorthwyr, neu sy'n bwriadu archwilio cefndir pobl y maent yn eu henwebu fel llywodraethwyr sefydledig ysgolion a gynorthwyr;
- ysgolion annibynnol ac unrhyw ysgolion a gynhelir sy'n darparu eu gwasanaethau personél eu hunain;
- sefydliadau addysg bellach sy'n darparu eu gwasanaethau personél eu hunain;
- asiantaethau a busnesau cyflogaeth sy'n darparu athrawon llanw a/neu staff eraill i ysgolion a/neu sefydliadau addysg bellach;
- sefydliadau addysgol eraill, fel y gwasanaeth ieuencid;
- sefydliadau addysg uwch sy'n darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon, neu hyfforddiant arall lle mae myfyrwyr yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc fel rhan o'u cwrs, neu sy'n cynnwys myfyrwyr dan 18 oed fel arfer.

A ddylai ysgolion gofrestru gyda'r Biwro?

21. Dylai AALLau weithredu fel y corff cofrestredig ac awdurdodi pob cais am Ddadleniad ar gyfer yr ysgolion a'r sefyllfaoedd addysgol eraill y maent yn eu cynnal ac y maent yn darparu gwasanaethau personél iddynt. Dylai sefydliadau

eraill sy'n darparu gwasanaethau personél i ysgolion hefyd gofrestru a threfnu archwiliadau ar gyfer yr ysgolion sy'n glientau iddynt. Dim ond ysgolion annibynnol ac unrhyw ysgolion eraill sy'n darparu eu gwasanaethau personél eu hunain yn fewnol ddylai gofrestru gyda'r Biwro eu hunain.

22. Yn achos ysgolion cymunedol nad ydynt yn cael gwasanaethau personél gan eu AALL, bydd angen i'r awdurdod wneud trefniadau gyda'r ysgol, neu'r corff sy'n darparu gwasanaethau personél yr ysgol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y sicrwydd bod yr archwiliad i gefndir gweithiwr newydd yn dangos nad yw ef neu hi wedi ei wahardd. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni dyletswydd statudol yr awdurdod i beidio â chyflogi person sydd wedi ei wahardd.

Faint o amser fydd y Biwro'n ei gymryd i brosesu cais am Ddadleniad?

23. Mae'r Biwro'n ymrwymo i ddarparu 95% o'r Dadleniadau Safonol cyn pen un wythnos ar ôl derbyn ffurflen gais wedi ei llenwi'n gywir, a 90% o'r Dadleniadau Manwl cyn pen tair wythnos ar ôl derbyn ffurflen wedi ei llenwi'n gywir.

I bwy y dylid gofyn iddo/iddi wneud cais am Ddadleniad?

24. Pobl sy'n cael eu dewis ar gyfer eu penodi i swyddi y mae eu dyletswyddau arferol yn golygu cysylltiad rheolaidd gyda phlant dan 18 oed mewn sefydliad addysg bellach, ac unrhyw un sy'n cael ei ddewis ar gyfer ei benodi i swydd mewn gwaith rheoleiddiedig sy'n cael ei nodi yn adran 36 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000.

25. Nid oes angen archwilio i gefndir disgyblion sy'n gwneud cyfnodau byr o brofiad gwaith lle ceir cysylltiad gyda phlant mewn ysgolion neu sefydliadau addysgol eraill. Fodd bynnag, bydd angen archwilio i gefndir myfyrwyr y mae'n ofynnol iddynt weithio gyda phlant fel rhan angenrheidiol o gwrs hyfforddi, e.e. athrawon-fyfyrwyr, gweinyddesau meithrin, ac yn y blaen, pan gânt eu derbyn ar y cwrs.

Pa fath o Ddadleniad sy'n briodol i staff addysg?

26. Dylai athrawon, gwirfoddolwyr eraill ar y staff y mae eu gwaith yn cynnwys gofalu'n rheolaidd am blant dan 18 oed, eu goruchwyllo neu fod yn gyfrifol amdanynt ar eu pennau eu hunain, gael Dadleniad Manwl. Mae hyn yn cynnwys ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau hyfforddi athrawon, athrawon dan hyfforddiant a gweithwyr ieuenctid.

27. Dylai pobl sy'n cael eu penodi i unrhyw rai o'r swyddi eraill a ddisgrifir uchod gael Dadleniad Safonol. Dyma'r math priodol o Ddadleniad hefyd ar gyfer llywodraethwyr ysgol. Bydd y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau cyn bo hir a fydd yn cynnwys mwy o wybodaeth ynghylch cael Dadleniadau ar gyfer llywodraethwyr ysgolion. Cyhoeddir y canllawiau hyn ar wefan y Cynulliad maes o law.

Oes angen talu am Ddadleniad?

28. Oes. Mae'r Biwro Cofnodion Troseddol yn codi tâl o £12 ar unigolion am bob Dadleniad. Y cyflogwyr a'r sefydliadau sy'n gofyn am y Dadleniad fydd yn penderfynu a ydynt am ad-dalu'r costau i'r ymgeisydd neu dalu ar ei ran. Ni chodir tâl ar wirfoddolwyr am Ddadleniad Safonol na Manwl, ond bydd yn rhaid iddynt dalu am Ddadleniad Sylfaenol.

Beth mae gwybodaeth ychwanegol yn ei olygu?

29. Gwybodaeth a gedwir yng nghofnodion yr heddlu lleol yw hon, ac nid yw'n rhan o gofnod troseddol person. Fe'i gelwir yn aml yn wybodaeth 'ddi-gollfarn'. Bydd pob Prif Gwnstabl yn penderfynu pa wybodaeth ddi-gollfarn, os oes unrhyw wybodaeth o'r fath, ddylai gael ei rhyddhau mewn ymateb i gais am Ddadleniad. Er bod modd cynnwys gwybodaeth ddi-gollfarn ar y ddau gopi o'r Dadleniad, ni fydd gwybodaeth sensitif iawn, fel manylion ymchwiliad gan yr heddlu, yn ffurfio rhan o ddogfen y Dadleniad, a bydd yn cael ei hanfon i'r corff cofrestredig yn unig. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd copi'r cyflogwr o ddogfen y Dadleniad yn dangos bod yr heddlu'n anfon mwy o wybodaeth drwy lythyr. Ni ddylai'r wybodaeth hon gael ei throsglwyddo i'r ymgeisydd.

A all person neu gorff cofrestredig rannu gwybodaeth o Ddadleniad?

30. Mae Deddf Heddlu 1997 yn nodi bod dadlennu unrhyw wybodaeth sy'n cael ei datgelu mewn Dadleniad Safonol neu Fanwl heb ganiatâd i wneud hynny yn drosedd. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth mewn amgylchiadau amrywiol. Er enghraifft:

- gall y sawl a gydarwyddodd gais am Ddadleniad rannu'r wybodaeth gydag aelod arall o'r corff cofrestredig os oes ar y person arall angen y wybodaeth er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau;
- os yw'r person wedi cydarwyddo'r cais ar ran corff arall (e.e. AALL wedi trefnu archwiliad ar ran ysgol) gall y sawl a gydarwyddodd y cais drosglwyddo'r wybodaeth i'r corff hwnnw;
- lle bo corff yn derbyn gwybodaeth gan berson cofrestredig fel uchod, gellir rhannu'r wybodaeth gydag aelodau o'r corff hwnnw y mae angen y wybodaeth arnynt er mwyn cyflawni eu dyletswyddau; a
- gellir trosglwyddo gwybodaeth i un o adrannau'r llywodraeth.

31. Os yw unrhyw un sydd â gwybodaeth am Ddadleniad yn ei feddiant yn ansicr a all ef neu hi drosglwyddo'r wybodaeth i rywun arall, dylai ef neu hi ofyn am gyngor gan gydarwyddwr arweiniol y corff cofrestredig a awdurdododd yr archwiliad. Rhaid i drefniadau ar gyfer cadw gwybodaeth am Ddadleniad yn ddiogel gydymffurfio â Chod Ymarfer y Biwro Cofnodion Troseddol ac unrhyw gyfarwyddyd ategol gan y Biwro.

32. Os bydd Dadleniad yn dangos bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi pennu cyfyngiadau ar gyflogaeth person, ni ddylai'r person mewn unrhyw amgylchiadau gael ei roi mewn swydd a fyddai'n mynd yn groes i'r cyfyngiadau hyn, a dylai'r

person cofrestredig hysbysu pennaeth yr ysgol neu brifathro'r coleg ynghylch telerau'r cyfyngiadau ar gyflogaeth y person hwnnw a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

A ddylid cael Dadleniadau ar gyfer y staff presennol?

33. Na. Ni ddylai cyflogwyr, ysgolion nac AALLau ofyn i'r staff presennol nad oeddent yn gymwys cynt ar gyfer archwiliadau Rhestr 99 a/neu archwiliadau cefndir troseddol wneud cais am Ddadleniad, oni bai fod ganddynt achos i bryderu ynghylch addasrwydd y person i weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Pa mor aml y dylai pobl ddisgwyl cael Dadleniad?

34. Os ydynt yn dechrau swydd newydd gyda chyflogwr gwahanol, yn cael eu hailbenodi neu eu hailethol fel llywodraethwr, yn cael bwlch o dri mis neu fwy yn eu gwasanaeth neu'n symud i swydd lle mae ganddynt lawer iawn mwy o gyfrifoldeb am blant a phobl ifanc, neu os oes gan y cyflogwr, yr ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r AALL achos i bryderu ynghylch eu haddasrwydd i weithio gyda phlant.

Sut all ysgolion fod yn sicr bod athrawon llanw wedi cael Dadleniad?

35. Gall penaethiaid ofyn i athrawon llanw ddangos eu copi o'r Dadleniad Manwl er mwyn cael sicrwydd bod yr archwiliad wedi ei wneud, a gallant ofyn i asiantaethau gadarnhau dilysrwydd y ddogfen. Yn yr un modd, gall Penaethiaid ofyn i athrawon a gafodd archwiliad dan drefniadau blaenorol ddangos y llythyr a oedd yn tystio bod y person wedi cael archwiliad boddhaol. Ceir canllawiau pellach ar gyfer asiantaethau a busnesau cyflogi athrawon yn ymdrin â chael archwiliadau o gofnodion troseddol ac archwiliadau Rhestr 99 drwy'r Biwro Cofnodion Troseddol yn Atodiad C.

Sut fydd cael archwiliadau Rhestr 99 ar gyfer pobl nad ydynt yn gymwys ar gyfer Dadleniadau Safonol neu Fanwl?

36. Ni fydd gan athrawon sy'n ceisio am swyddi mewn sefydliadau addysg bellach, lle byddant yn delio gyda myfyrwyr dros 18 oed yn unig, hawl i Ddadleniad Safonol neu Fanwl, gan nad yw'r swyddi hyn yn dod dan yr eithriadau i Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Fodd bynnag, rhaid cael archwiliadau Rhestr 99 ar gyfer y bobl hyn. Dylai cyflogwyr pobl sy'n dod i'r categori hwn gysylltu â'r Tim Camymddygiad Athrawon yn y cyfeiriad hwn, Teachers' Misconduct Team, Pupil Support and Independent Schools Division, DfES, Mowden Hall, Staindrop Road, Darlington, DL3 9BG.

Sut fydd cyflogwr yn penderfynu a yw cofnod troseddol person yn berthnasol?

37. Dylid barnu addasrwydd ymgeisydd ar sail canlyniadau'r holl archwiliadau perthnasol i'w gefndir ef neu hi a wnaethpwyd cyn ei benodi. Nid yw'r ffaith fod gan y person gofnod troseddol yn ei wneud yn anaddas o reidrwydd i weithio gyda phlant neu bobl ifanc. Rhaid i gyflogwyr, ar y cyd â'r corff neu'r person

cofrestredig sydd wedi ei awdurdodi i dderbyn gwybodaeth am Ddadleniad, benderfynu ynghylch addasrwydd y person, gan ystyried dim ond y troseddau hynny a allai fod yn berthnasol i'r swydd neu'r sefyllfa arbennig sydd dan sylw. Ni all y Cynulliad gynghori cyflogwyr a ddylent gyflogi person arbennig ai peidio. Dylid ystyried nifer o bwyntiau wrth benderfynu ynghylch perthnasedd collfarnau:

- **Natur y trosedd:** Yn gyffredinol, bydd collfarnau sy'n gysylltiedig â throseddau rhywiol neu dreisgar, a throseddau yn ymwneud â chyffuriau yn arwyddion cryf iawn yn erbyn cyflogi person i weithio gyda phlant a phobl ifanc.
- **Natur y penodiad:** Yn aml iawn bydd natur y penodiad yn helpu i asesu perthnasedd y gollfarn. Er enghraifft, byddai troseddau difrifol yn ymwneud â rhyw, trais, cyffuriau neu alcohol yn peri cryn bryder lle byddai swydd yn ymwneud â darparu gofal. Byddai troseddau gyrru neu alcohol yn berthnasol mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud â chludo plant a phobl ifanc.
- **Pa bryd y cyflawnwyd y trosedd:** Gall troseddau a gyflawnwyd sawl blwyddyn yn ôl yn aml iawn fod yn llai perthnasol na throseddau diweddar. Fodd bynnag, mae collfarnau sy'n gysylltiedig â throseddau difrifol yn ymwneud â rhyw neu drais neu droseddau difrifol yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau yn fwy tebygol o beri pryder parhaus na dyweder un achos o anonestrwydd a gyflawnwyd pan oedd y person yn ifanc. Rhaid pwyso a mesur y posibilrwydd ar gyfer ailsefydlu ochr yn ochr â'r angen i amddiffyn plant a phobl ifanc.
- **Amllder troseddu:** Mae cyfres o droseddau dros gyfnod o amser yn fwy tebygol o beri pryder nag un gollfarn fach.

38. Bydd unrhyw un sydd wedi ei wahardd rhag gweithio yn y gwasanaeth addysg oherwydd nad yw ef neu hi yn berson addas a phriodol i gael ei gyflogi fel athro neu athrawes neu i weithio gyda phlant a phobl ifanc, hefyd wedi ei wahardd rhag gwneud unrhyw waith gyda phlant mewn swydd reoleiddiedig fel sy'n cael ei nodi yn adran 36 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000. Mae'n drosedd i berson sydd wedi ei wahardd ymgeisio, cynnig gwneud, derbyn neu wneud unrhyw waith mewn unrhyw un o'r swyddi rheoleiddiedig a nodir yn y Ddeddf. Mae hefyd yn drosedd i gyflogwr gynnig gwaith mewn swydd reoleiddiedig i unigolyn sydd wedi ei wahardd rhag gweithio gyda phlant, neu i beidio â thynnu unigolyn o'r fath o waith o'r fath, ac yntau'n gwybod am y gwaharddiad. Bydd y Biwro Cofnodion Troseddol yn hysbysu'r heddlu os bydd person sydd wedi ei wahardd yn ceisio cael gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

39. Mae'r Biwro Cofnodion Troseddol hefyd wedi llunio canllawiau ar gyfer cyflogwyr yn ymwneud â barnu addasrwydd ymgeiswyr.

Sut mae cael mwy o wybodaeth am y Biwro?

40. Gellir cael mwy o wybodaeth am y Biwro ar ei wefan dan www.crb.gov.uk a gellir cael mwy o wybodaeth am y gwasanaeth Dadleniadau dan www.disclosure.gov.uk. Neu, gallwch gysylltu â'r Biwro drwy lythyr neu dros y ffôn. Cyfeiriad y Biwro yw P O Box 110, Lerpwl L3 6ZZ. Rhif y llinell wybodaeth yw: 0870 90 90 811 a'r llinell i drafod ceisiadau i Gofrestru ar gyfer sefydliadau sydd am gofrestru i awdurdodi archwiliadau yw 0870 90 90 822.

RHAN 3: RHOI GWYBOD AM UNIGOLION I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Pa achosion y dylid rhoi gwybod amdanynt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru?

41. Mae gan gyflogwyr ddyletswydd, dan Reoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) (Cymru) 2000 i gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru pan fo person yn cael ei ddiswyddo o gyflogaeth berthnasol o ganlyniad i gamymddygiad neu'n ymddiswyddo mewn amgylchiadau a fyddai wedi arwain at ei ddiswyddo, neu ystyried ei ddiswyddo pe na bai wedi ymddiswyddo.
42. Gall sefydliadau hyfforddi athrawon neu sefydliadau addysg bellach, sy'n darparu cyrsiau hyfforddiant ar gyfer gweinyddesau meithrin a gweithwyr gofal plant eraill hefyd roi gwybod am achosion yn ymwneud â myfyrwyr ar y cyrsiau hynny.
43. Mae darpariaethau yn Neddf Addysg 2002 hefyd yn nodi y bydd yn ddyletswydd ar unrhyw un sy'n trefnu i gyflenwi athrawon neu bobl i weithio gyda phlant i ysgol neu goleg addysg bellach i roi gwybod i'r Cynulliad am gamymddygiad (h.y. busnesau ac asiantaethau cyflogi). Felly, bydd yn ddyletswydd ar fusnes neu asiantaeth gyflogi a gyflenwodd yr athro neu'r athrawes (pa un a yw'n cyflogi'r athro/athrawes ai peidio) a'r sefydliad y mae'r athro/athrawes yn gweithio ynddo (pa un a yw'n cyflogi'r athro/athrawes ai peidio) i roi gwybod am gamymddygiad.
44. Dylid cyflwyno adroddiadau yn fuan, ac o leiaf un mis ar ôl diswyddiad neu ymddiswyddiad y person.
45. Dylai cyflogwyr hefyd gysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru os ydynt yn poeni bod rhesymau meddygol posibl dros wahardd gweithiwr cyflogedig, athro dan hyfforddiant neu ddarpar athro/athrawes dan hyfforddiant o gyflogaeth berthnasol. Ceir gwybodaeth am wahardd am resymau meddygol yng Nghylchlythyr 4/99 yr Adran Addysg a Chyflogaeth, 'Physical and Mental Fitness to Teach of Teacher and of Entrants to Initial Teacher Training'.

[Mae'r Cynulliad yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch cyfres newydd o reoliadau – Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003. Bwriedir i'r rhain ddwyn ynghyd yr holl wybodaeth sydd i'w chyflenwi gan gyflogwyr ac asiantaethau cyflenwi athrawon i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac i'r Cynulliad mewn un set o reoliadau.]

Pa wybodaeth y dylid ei darparu i'r Cynulliad?

46. Mae'r Rheoliadau'n nodi ei bod yn ofynnol i gyflogwyr gyflwyno ffeithiau'r achos a darparu **pob** gwybodaeth berthnasol, sy'n ymwneud ag amgylchiadau'r diswyddiad neu'r ymddiswyddiad i'r Cynulliad. Pan nad yw person wedi ei ddyfarnu'n euog o gyflawni trosedd, ni ellir cymryd camau pellach onid yw'r honiad o gamymddwyn wedi ei brofi mewn ffordd arall. Mae'n bwysig iawn, lle

bynnag y bo modd, bod adroddiadau am yr achosion hyn yn cynnwys copïau o unrhyw dystiolaeth gefnogol, fel datganiadau yn ymwneud â'r camymddygiad, nodiadau am unrhyw gyfweiliadau gyda'r person a chofnodion unrhyw gyfweiliadau disgyblu. Dylai cyflogwyr hefyd ddweud wrth yr aelod o'r staff ei fod yn hysbysu'r Cynulliad ynghylch ei achos a'i gynghori i gadw unrhyw ddogfennau perthnasol y gall fod arno eu hangen os oes angen ystyried yr achos ymhellach.

Sut mae'r Cynulliad yn delio gyda'r adroddiadau hyn?

47. Bydd y Cynulliad yn cydnabod derbyn pob adroddiad ac yn tynnu gwybodaeth ar sail niferoedd/ardal/math, cyn anfon yr adroddiad i'r Adran Addysg a Sgiliau. Bydd yr Adran Addysg a Sgiliau wedyn yn delio ar ran y Cynulliad gydag achosion yn ymwneud â diogelwch a lles plant, materion yn ymwneud ag addasrwydd meddygol neu achosion lle nad yw'r athrawon wedi eu cofrestru (e.e. athro neu athrawes mewn ysgol annibynnol). Bydd penderfyniadau i wahardd neu gyfyngu ar gyflogaeth yn yr achosion hyn yn cael eu gwneud wedyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Addysg a Sgiliau.

Beth am athrawon sydd wedi eu cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru?

48. Bydd unrhyw achosion sy'n ymwneud ag athro neu athrawes sydd wedi ei chofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ac nad ydynt yn cynnwys materion yn ymwneud â diogelwch a lles plant yn cael eu cyfeirio gan yr Adran Addysg a Sgiliau i sylw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, er mwyn i'r Cyngor ystyried yr achos yn unol â'i swyddogaethau disgyblu ei hun.

A ddylid rhoi gwybod am unrhyw achosion yn uniongyrchol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru?

49. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am ystyried achosion o anghymhwyster proffesiynol difrifol. Mae'n ofynnol i gyflogwyr hysbysu'r Cyngor yn uniongyrchol ynghylch achosion lle diswyddir athrawon cofrestredig oherwydd anghymhwyster neu lle byddai eu cyflogwr wedi eu diswyddo neu wedi ystyried eu diswyddo pe na baent wedi ymddiswyddo.

A fydd gwybodaeth sy'n cael ei darparu i'r Cynulliad a/neu'r Adran Addysg a Sgiliau yn cael ei dadlennu i unrhyw un arall?

50. Bydd. Bydd gwybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei throsglwyddo i'r Adran Addysg a Sgiliau. Bydd unrhyw wybodaeth sy'n cael ei hanfon i'r Adran Addysg a Sgiliau yn cael ei datgelu yn ei thro i'r athro neu'r gweithiwr y maent yn ystyried ei achos. Os yw'n briodol cael adroddiad meddygol gan seiciatrydd fforensig ymgynghorol neu gan y meddyg sy'n ymdrin â'r person, bydd y wybodaeth hefyd yn cael ei datgelu i Gynghorydd Meddygol yr Adran Addysg a Sgiliau ac i'r ymgynghorydd neu'r meddyg.

51. Yn ychwanegol at hyn, os bydd athro neu athrawes yn cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Safonau Gofal yn erbyn penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol i

wahardd neu gyfyngu ar ei gyflogaeth neu yn erbyn penderfyniad i beidio â thynnu ei enw oddi ar Restr 99, gall unrhyw wybodaeth a ddarperir am yr achos gael ei throsglwyddo i'r Tribiwnlys.

52. Dim ond os ystyrir y byddai'n cael effaith andwyol arnynt y gellir peidio â dangos tystiolaeth feddygol a geir mewn cysylltiad ag achos i'r athro/athrawes neu'r gweithiwr. Yn yr un modd, gellid darparu tystiolaeth a chynghor meddygol a ddarperir gan gynghorydd meddygol yr Adran Addysg a Sgiliau i'r Tribiwnlys Safonau Gofal, ond peidio â'u dangos i'r athro/athrawes neu'r gweithiwr dan sylw. Yn yr amgylchiadau hyn, gellir rhyddhau'r wybodaeth i'r sawl sy'n cynrychioli'r person.

A fydd cyflogwyr yn cael gwybod beth yw canlyniad adroddiad?

53. Yn yr achosion hynny sy'n ymwneud â diogelwch a lles plant, addasrwydd meddygol, neu athrawon heb eu cofrestru, os bydd cyflogwr (neu fusnes neu asiantaeth gyflogi) wedi hysbysu'r Cynulliad ynghylch camymddygiad person, bydd yn cael ei hysbysu ynghylch canlyniad yr achos gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Pan fo person yn gweithio mewn cyflogaeth berthnasol, bydd yr Adran Addysg a Sgiliau yn ymgynghori â'i gyflogwr cyn gwneud unrhyw benderfyniad i'w wahardd neu i gyfyngu ar ei gyflogaeth. Mewn achosion eraill bydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'n hysbysu'r cyflogwr ynghylch canlyniad achosion y cynhaliwyd gwrandawriad ar eu cyfer.

Sut mae'r Cynulliad yn delio gyda'r achosion hyn?

54. Ceir cyfarwyddyd ynghylch y prosesau a ddilynir wrth ddelio gydag achosion o gamymddwyn a gwaharddiadau meddygol posibl yn nogfen yr Adran Addysg a Sgiliau 'Preventing Unsuitable People from Working with Children: Guidance for Education Staff', sydd ar gael gan y Tîm Camymddygiad Athrawon (ffôn: 01352 392098/ 392099 ac a fydd ar gael cyn bo hir ar wefan yr Adran Addysg a Sgiliau. Gellir cael cyfarwyddyd ynghylch y prosesau a ddilynir gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gan Gofrestrydd y Cyngor (ffôn: 029 20 55 0364) neu ar wefan y Cyngor <http://www.gtcw.org.uk/>.



DEDDF CYFIAWNDER TROSEDDOL A GWASANAETHAU LLYS 2000³

Ystyr “Swydd reoleiddiedig”

36. – (1) Y swyddi rheoleiddiedig i ddibenion y Rhan hon yw –

- (a) swydd y mae ei dyletswyddau arferol yn cynnwys gweithio mewn sefydliad y cyfeiriwyd ato yn is-adran (2),
- (b) swydd y mae ei dyletswyddau arferol yn cynnwys gweithio ar safle gofal dydd,
- (c) swydd y mae ei dyletswyddau arferol yn cynnwys gofalu am blant, eu hyfforddi, eu goruchwyllo neu fod yn gyfrifol amdanynt ar eich pen eich hun,
- (d) swydd y mae ei dyletswyddau arferol yn golygu cyswllt heb oruchwyliaeth gyda phlant dan drefniadau a wnaethpwyd gan berson cyfrifol,
- (e) swydd y mae ei dyletswyddau arferol yn cynnwys gofalu am blant dan 16 oed tra mae'r plant yn cael eu cyflogi,
- (f) swydd y mae rhan sylweddol o'i dyletswyddau arferol yn cynnwys goruchwyllo neu hyfforddi plant dan 16 oed tra mae'r plant yn cael eu cyflogi,
- (g) swydd y cyfeiriwyd ati yn is-adran (6),
- (h) swydd y mae ei dyletswyddau arferol yn cynnwys goruchwyllo neu reoli unigolyn yn ei waith mewn swydd reoleiddiedig.

(2) Y sefydliadau y cyfeirir atynt yn is-adrannau (1)(a) yw –

- (a) sefydliad sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer cadw plant,
- (b) ysbyty sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer derbyn a thrin plant,
- (c) cartref gofal, cartref gofal preswyl, cartref nyrsio neu ysbyty preifat sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant,
- (d) sefydliad addysgol,
- (e) cartref plant neu gartref gwirfoddol,
- (f) cartref a ddarperir dan adran 82(5) Deddf Plant 1989.

³ Cyhoeddwyd Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 gan Stationery Office Limited, ISBN 0 10 544300x. Gellir ei gweld hefyd dan www.hms.o.gov/acts/acts2000.htm.

- (3) I ddibenion yr adran hon, ystyrir gwaith sy'n cael ei wneud ar unrhyw eiddo fel gwaith nad yw'n cael ei wneud ar eiddo gofal dydd i'r graddau y mae'n –
- (a) cael ei wneud mewn rhan o'r eiddo na ofelir am blant ynddo, neu
 - (b) cael ei wneud ar adegau pan na ofelir am blant yno.
- (4) Nid yw'r dyletswyddau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) (c) a (d) yn cynnwys (yn y drefn honno) –
- (a) gofalu am blant, eu hyfforddi, eu goruchwyllo neu fod yn gyfrifol amdanynt ar eich pen eich hun pan fo'r plant yn cael eu cyflogi, neu
 - (b) dyletswyddau yn cynnwys cysylltiad â phlant pan fo'r plant yn cael eu cyflogi.
- (5) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (1)(d) at gyswllt heb oruchwyliaeth yn ymwneud â chyswllt yn absenoldeb unrhyw berson neu ofalwr cyfrifol; ac yn yr is-adran hon, mae "gofalwr" yn golygu person sy'n dal swydd fel y rhai y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(c).
- (6) Y swyddi y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(g) yw –
- (a) aelod o gorff llywodraethu sefydliad addysgol,
 - (b) aelod o gorff llywodraethu lleol perthnasol,
 - (c) cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol,
 - (d) prif swyddog addysg awdurdod addysg lleol,
 - (e) ymddiriedolwr elusennol elusen plant,
 - (f) aelod o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr,
 - (g) Comisiynydd Plant Cymru neu ddirprwy Gomisiynydd Plant Cymru,
 - (h) aelod o'r Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi Llysoedd Plant a Theuluoedd, neu ei Brif Weithredwr.
- (7) I ddibenion is-adran (6), mae person yn aelod o gorff llywodraethu perthnasol –
- (a) os yw'n aelod o awdurdod lleol, neu o adran weithredol awdurdod lleol ac yn cyflawni unrhyw rai o swyddogaethau addysgol, neu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol,
 - (b) os yw'n aelod o adran weithredol awdurdod lleol sy'n cyflawni unrhyw swyddogaethau o'r fath,
 - (c) os yw'n aelod o –

- (i) pwyllgor adran weithredol awdurdod lleol, neu
 - (ii) pwyllgor rhanbarth, neu unrhyw bwyllgor arall, mewn awdurdod lleol, sy'n cyflawni unrhyw swyddogaethau o'r fath.
- (8) Pan fo'n cael ei defnyddio yng Ngogledd Iwerddon, dylid cymryd bod is-adran (6) yn cyfeirio hefyd at y swyddi isod –
- (a) aelod, neu gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydlwyd dan Erthygl 16 Gorchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972,
 - (b) aelod, neu gyfarwyddwr gweithredol gwaith cymdeithasol, ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydlwyd dan Erthygl 10 Gorchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1991,
 - (c) aelod, neu brif swyddog addysg, bwrdd addysg a llyfrgelloedd a sefydlwyd dan Erthygl 3 Gorchymyn Addysg a Llyfrgelloedd (Gogledd Iwerddon) 1986.
- (9) Mae unrhyw gyfeiriad at bwyllgor yn is-adran (7) yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw is-bwyllgor sy'n cyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r pwyllgor hwnnw.
- (10) I ddibenion is-adran (1)(h), y mae deiliad swydd –
- (a) yn goruchwyllo unigolyn dim ond os yw'n goruchwyllo'r modd y mae'r unigolyn yn cyflawni ei ddyletswyddau o ddydd i ddydd, a
 - (b) yn rheoli unigolyn dim ond os yw'r unigolyn yn atebol iddo ef yn uniongyrchol am gyflawni ei ddyletswyddau neu os oes ganddo awdurdod i ddiswyddo'r unigolyn.
- (11) I ddibenion yr adran hon, mae elusen yn elusen plant os yw'r unigolion sy'n weithwyr i'r elusen fel arfer yn cynnwys unigolion sy'n gweithio mewn swyddi rheoleiddiedig.
- (12) I ddibenion yr adran hon, mae unigolyn yn weithiwr i elusen os yw'n cyflawni gwaith dan drefniadau a wnaethpwyd gan yr elusen; ond nid yw'r trefniadau y cyfeiriwyd atynt yn yr is-adran hon yn cynnwys unrhyw drefniadau sy'n cael eu gwneud i ddibenion sydd ddim ond yn digwydd bod yn gysylltiedig â'r dibenion y sefydlwyd yr elusen ar eu cyfer.
- (13) I ddibenion yr adran hon, mae'r canlynol yn Bersonau cyfrifol mewn perthynas â phlentyn –
- (a) rhiant neu warcheidwad y plentyn ac unrhyw oedolyn y mae'r plentyn yn byw gydag ef neu hi,
 - (b) y person sydd â gofal am unrhyw sefydliad y cyfeirir ato yn is-adran (2) y mae'r plentyn yn byw ynddo, yn glaf ynddo neu'n derbyn addysg ynddo, ac unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran person o'r fath,

(c) person wedi ei gofrestru dan Ran XA Deddf Plant 1989 ar gyfer darparu gofal dydd ar safle y gofelir am y plentyn arno, a

(d) unrhyw berson sy'n dal swydd y cyfeirir ati yn is-adran (6).

(14) Yn yr adran hon mae –

"pwyllgor rhanbarth" yn seiliedig ar yr un ystyr ag sydd yn adran 18 Deddf Llywodraeth Leol 2000,

"cadw" yn golygu cadw yn rhinwedd gorchymyn llys neu dan ddeddfiad,

"swyddogaethau addysgol", mewn perthynas ag awdurdod lleol, yn golygu unrhyw swyddogaethau yng nghyswllt addysg a roddir i'r awdurdod yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod addysg lleol,

"adran weithredol" mewn perthynas ag awdurdod lleol, yn seiliedig ar yr un ystyr ag sydd yn Rhan II Deddf Llywodraeth Leol 2000,

"swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol" mewn perthynas ag awdurdod lleol, yn seiliedig ar yr un ystyr ag sydd yn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970.

(15) I ddibenion newid y diffiniad o "swydd reoleiddiedig" gall yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn wneud unrhyw newid sy'n briodol yn ei farn ef i'r rhan hon (ar wahân i'r is-adran hon).

CANLLAWIAU YN YMWNEUD Â DADLENIADAU AR GYFER SEFYDLIADAU YNG NGHYMRU SY’N DARPARU HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL ATHRAWON A SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH ERAILL YNG NGHYMRU

A ddylai sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon a sefydliadau addysg uwch eraill gofrestru gyda’r Biwro Cofnodion Troseddol?

1. Gall sefydliadau gofrestru gyda’r Biwro Cofnodion Troseddol er mwyn awdurdodi, h.y. cydarwyddo ceisiadau ar gyfer Dadleniadau Safonol a Manwl yn eu hawl eu hunain. Neu, gallant ddod i gytundeb gyda chorff cofrestredig arall, corff ambarél, i awdurdodi ceisiadau ar ran y sefydliad. Bydd ymarferoldeb y trefniant olaf hwn yn dibynnu ar nifer yr archwiliadau y mae sefydliadau’n debygol o’u gwneud, faint fydd y corff ambarél yn ei godi am ei wasanaethau, a’r amser ychwanegol y gallai delio gyda chorff arall ei ychwanegu at y broses.

Pwy ddylai gael Dadleniad i ddibenion amddiffyn plant?

2. Myfyrwyr a fydd yn gwneud ymarfer dysgu mewn ysgolion; myfyrwyr a fydd yn gyfrifol am ofalu am blant, eu hyfforddi neu eu goruchwyllo, a myfyrwyr a fydd yn gyfrifol am blant ar eu pennau eu hunain fel rhan o’u cwrs neu a fydd â chyswllt heb oruchwyliaeth â phlant fel rhan o’r cwrs; a staff neu wirfoddolwyr yn y sefydliad y bydd eu dyletswyddau arferol yn cynnwys gofalu am blant dan 18 oed, eu hyfforddi, eu goruchwyllo, neu fod yn gyfrifol amdanynt ar eu pennau eu hunain, neu y bydd eu dyletswyddau arferol yn cynnwys cyswllt heb oruchwyliaeth â phlant dan 18 oed.

Pryd ddylai athrawon-fyfyrwyr wneud cais am Ddadleniad?

3. Dylid gofyn i fyfyrwyr gael Dadleniad ar ôl i’r sefydliad benderfynu cynnig lle iddynt a chyn dechrau’r cwrs. Efallai mai’r ffordd orau ymlaen fyddai i’r sefydliadau gynnig lle yn amodol ar archwiliad boddhaol.

A ddylid gofyn am Ddadleniadau ar gyfer y staff a’r myfyrwyr presennol?

4. Na. Ni ddylai sefydliadau ofyn i’r staff na’r myfyrwyr presennol wneud cais am Ddadleniad onid oes ganddynt achos i bryderu ynghylch addasrwydd person i weithio gyda phlant. Ni ddylid ailarchwilio cefndir pobl yn rheolaidd ychwaith oni bai eu bod yn newid cyflogwr, yn cael bwlch o 3 mis neu fwy mewn gwasanaeth, neu’n symud i swydd sydd â llawer mwy o gyfrifoldeb am blant.

Sut y dylid barnu addasrwydd person?

5. Rhaid i sefydliadau ddarllen paragraffau 37 - 39 yn y prif Ganllawiau.
6. Ni ddylai sefydliadau ddatgelu gwybodaeth a geir o Ddadleniad i drydydd parti megis ysgol neu AALL heb gydsyniad ysgrifenedig y person. Yn unol â thelerau Deddf Heddlu 1997, mae datgelu gwybodaeth o'r fath heb ganiatâd yn drosedd. Cyfrifoldeb y sefydliad yw penderfynu a ddylid derbyn ymgeisydd i gwrs yng ngoleuni unrhyw gofnod troseddol a all fod gan y person. Wrth gwrs, fodd bynnag, bydd angen i sefydliadau ystyried barn AALLau a Phenaethiaid y byddant fel arfer yn anfon athrawon-fyfyrwyr atynt, a'r math o drosedd y byddent yn ei hystyried yn annerbyniol.

A ddylid rhoi gwybod i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am unrhyw achosion?

7. Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau roi gwybod am achosion. Fodd bynnag, cynghorir sefydliad i roi gwybod i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am achos os yw'r amgylchiadau'n dangos bod y person yn anaddas i weithio gyda phlant ac y dylid ei wahardd a'i roi ar Restr 99 er mwyn ei atal ef neu hi rhag chwilio am waith gyda phlant mewn ardal arall. Gallai amgylchiadau o'r fath godi:

- Lle bo cofnod troseddol ymgeisydd yn dangos ei fod ef neu hi yn anaddas i weithio gyda phlant (mae'r Ddeddf Heddlu'n caniatáu i wybodaeth gael ei datgelu i'r Cynulliad); neu
- Lle bo sefydliad yn tynnu enw person oddi ar restr y rhai sydd ar gwrs hyfforddi o ganlyniad i gollfarn neu gamymddygiad yn ymwneud â phlant; neu
- Lle bo sefydliad yn diswyddo person o waith gyda phlant, neu lle bo person yn ymddiswyddo neu'n rhoi'r gorau i weithredu fel gwirfoddolwr mewn gwaith o'r fath, o ganlyniad i gollfarn neu gamymddygiad yn ymwneud â phlant.

CANLLAWIAU AR GYFER ASiantaethau a Busnesau CYFLOGI ATHRAWON:

ARCHWILIADAU COFNODION TROSEDDOL A RHESTR 99 DRWY'R BIWRO COFNODION TROSEDDOL

Cyffredinol

- 1.** Mae'r canllawiau hyn yn cymryd lle'r canllawiau yn ymdrin ag archwiliadau cofnodion troseddol a Rhestr 99 a oedd yn nogfen yr Adran Addysg a Chyflogaeth, 'Guidance Notes for Teacher Employment Businesses and Agencies'. Mae gweddill y cyfarwyddyd sydd yn y ddogfen honno yn dal i fod mewn grym, ond rhaid cwblhau pob archwiliad yn foddhaol cyn i athro neu athrawes gael ei leoli mewn ysgol.
- 2.** Mae angen gwneud archwiliadau gwahanol ar gyfer ymgeiswyr sydd, neu sydd wedi bod yn byw yn y DU ac ymgeiswyr nad ydynt wedi bod yn byw yn y DU. Fodd bynnag, mae unrhyw un sy'n gwneud cais i ddysgu wedi ei eithrio o ddarpariaethau Deddf Ailsefydlu Troseddwyd 1974. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt roi manylion ysgrifenedig am bob collfarn droseddol, gan gynnwys y rhai hynny a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi "darfod". Rhaid i asiantaethau sy'n recriwtio athrawon llanw wneud pob ymgeisydd yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth hon a gofyn iddynt ddarparu manylion ysgrifenedig am unrhyw gofnod troseddol a all fod ganddynt, ni waeth ym mhle na pha bryd y digwyddodd.

Ymgeiswyr sy'n byw yn y DU neu sydd wedi bod yn byw yn y DU

- 3.** Mae'r Biwro Cofnodion Troseddol yn darparu "siop bob dim" ar gyfer archwilio cofnodion troseddol, Rhestr 99 yr Adran Addysg a Sgiliau a Rhestr Deddf Amddiffyn Plant yr Adran Iechyd o bobl sy'n anaddas i weithio gyda phlant. Gellir cael gwybodaeth am wasanaeth Dadleniadau'r Biwro Cofnodion Troseddol a sut i gael Dadleniadau ar wefan y Biwro dan <http://www.disclosure.gov.uk> neu drwy ffonio llinell wybodaeth y Biwro ar y rhif hwn 0870 90 90 811.
- 4.** Dylai asiantaethau gael Dadleniad Manwl ar gyfer pob athro neu athrawes lanw y maent yn ei recriwtio cyn i'r person gael ei leoli mewn ysgol. Gallai'r Dadleniad gynnwys gwybodaeth o gofnodion yr heddlu lleol a Rhestr 99 yr Adran Addysg a Sgiliau yn ychwanegol at wybodaeth am unrhyw gollfarnau, pa un a ydynt yn weithredol neu wedi darfod, rhybuddion a cheryddon. Gallai gwybodaeth yr Heddlu gynnwys manylion am ryddfarnau, erlyniadau sydd i ddod, neu wybodaeth ddi-gollfarn arall. Bydd hefyd yn nodi a yw'r person ar Restr y Ddeddf Amddiffyn Plant neu a yw wedi ei wahardd rhag gweithio gyda phlant.

Amllder Archwiliadau

- 5.** Dylai asiantaethau gael Dadleniad Manwl pan fônt yn cofrestru neu'n cysylltu ag athro am y tro cyntaf, a dylent gael Dadleniad Manwl newydd bob 3

blynedd, neu'n gynharach os yw'r athro neu'r athrawes yn cael bwlch o 3 mis neu fwy yn ei wasanaeth, neu os oes achos i bryderu ynghylch addasrwydd person i weithio gyda phlant.

6. Nid oes angen gofyn i athrawon sydd ar lyfrau mwy nag un asiantaeth yr un pryd gael Dadleniad Manwl ar wahân gan bob asiantaeth. Yn yr amgylchiadau hynny dylai'r ail asiantaeth neu'r asiantaeth ddilynol ofyn i'r athro neu'r athrawes ddangos ei gopi / ei chopi o'r Dadleniad a gafwyd gan yr asiantaeth gyntaf, a dylai gadarnhau dilysrwydd y ddogfen drwy gysylltu â'r asiantaeth gyntaf. Er hyn, bydd angen i'r ail asiantaeth gael Dadleniad ar wahân os bydd yr asiantaeth gyntaf yn dweud bod yr heddlu wedi datgelu gwybodaeth ddi-gollfarn nad oedd wedi ei chynnwys ar gopi'r athro/athrawes o'r Dadleniad.

Archwiliadau i gefndir yr athrawon presennol

7. Yn yr un modd, ni ddylai athro/athrawes sydd ar lyfrau asiantaeth yn barod ac sydd wedi ei (h)archwilio dan y trefniadau presennol gael ei (h)ailarchwilio'n awtomatig dim ond oherwydd bod y Biwro Cofnodion Troseddol wedi dod i fodolaeth. Dylai'r holl athrawon hynny allu dangos llythyr yn cadarnhau bod awdurdod addysg lleol a enwir wedi gofyn i'r heddlu archwilio i'w cefndir a bod yr archwiliad yn foddhaol. Dylai'r llythyr hwn gael ei ystyried yn ddilys am gyfnod o dair blynedd ar ôl dyddiad yr archwiliad, neu hyd nes y bo'r athro/athrawes yn cael bwlch o dri mis neu fwy yn ei wasanaeth / ei gwasanaeth, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Defnyddio Gwybodaeth ar Ddadleniadau

8. Rhaid i asiantaethau ddarllen paragraffau 37 – 39 yn y prif ganllawiau.

9. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch addasrwydd ymgeisydd i'w benodi, dylai'r asiantaeth gysylltu â rheolwr personél yr awdurdod addysg lleol sy'n gyfrifol am yr ysgolion y mae'r ymgeisydd yn debygol o weithio ynddynt.

Ymgeiswyr nad ydynt wedi bod yn byw yn y DU o'r blaen

10. Os nad yw ymgeisydd erioed wedi byw yn y DU o'r blaen, ni fydd unrhyw ddiben gofyn am Ddadleniad drwy'r Biwro Cofnodion Troseddol pan fydd yn cyrraedd y wlad hon. Ni fydd gan y person gofnod troseddol yn y wlad hon, ac ni fydd ef neu hi'n ymddangos ar y Rhestr 99 nac ar Restr y Ddeddf Amddiffyn Plant. Yn achos yr ymgeiswyr hyn, dylai asiantaethau sicrhau bod archwiliadau'n cael eu gwneud yn y wlad y mae'r person yn hanu ohoni lle bynnag y bo modd, yn unol â'r cyfarwyddyd yn Atodiad E i'r 'Guidance Notes for Teacher Employment Businesses and Agencies'.

11. Dylai asiantaethau roi llythyr i athrawon o wledydd tramor yn tystio bod yr holl archwiliadau sydd eu hangen yn unol â chyfarwyddyd yr Adran Addysg a Sgiliau wedi eu cwblhau'n foddhaol ac y gallant ei roi i Bennaeth os gofynnir amdano. Yn dilyn hyn, dylai'r athrawon hyn gael archwiliad i'w cefndir drwy'r Biwro Cofnodion Troseddol ar yr un sail ag athrawon llanw eraill yn y DU, h.y. bob 3 blynedd, neu'n gynharach os oes ganddynt fwlch mewn gwasanaeth o 3 mis neu fwy neu os oes achos i bryderu ynghylch addasrwydd y person i weithio gyda phlant.

Archwilio Cefndir Troseddol Posibl Athrawon o Wledydd Tramor

AWSTRALIA	Gall unigolion gael gwybodaeth am eu cefndir troseddol (os oes ganddynt gefndir troseddol) gan eu hawdurdodau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y wlad.
AWSTRIA	Gellir cael tystysgrifau ymddygiad da gan heddlu lleol Awstria neu gan swyddfeydd cynghorau. Gall dinasyddion Awstriaidd sy'n byw yn y DU gael copïau gan y Llysgenhadaeth Awstriaidd. Ymdrinnir â throseddau amrywiol. Fodd bynnag, mae troseddau y rhoddir dedfryd o hyd at 1 flwyddyn amdanynt yn cael eu dileu ar ôl 5 mlynedd. Mae troseddau y rhoddir dedfryd o rhwng 1 a 3 blynedd amdanynt yn cael eu dileu ar ôl 10 mlynedd.
BANGLADESH	Nid oes tystysgrif ymddygiad da ar gael.
BRASIL	Nid oes modd cael tystysgrifau ymddygiad da fel arfer. Efallai y bydd unigolion yn gallu dangos datganiad gan yr heddlu yn cadarnhau nad oes ganddynt gofnod troseddol.
CANADA	Nid oes modd cael tystysgrifau ymddygiad da fel arfer. Gall unigolion gael gwybod a oes cofnod eu bod wedi cyflawni trosedd ar Gronfa Ddata Gwybodaeth Genedlaethol yr Heddlu.
COLOMBIA	Ar yr amod bod ganddynt gofnod clir, gall unigolion gael tystysgrif ymddygiad da gan DAS (yr Adran sy'n delio gyda diogelwch a mewnfudo). Dim ond y 2 flynedd flaenorol sy'n cael eu cadarnhau gan y dystysgrif.
COSTA RICA	Gall unigolion gyflwyno cais i Swyddfa Cofnodion Troseddol Costa Rica, drwy lysgenhadaeth y wlad y maent yn teithio iddi. Mae'r cofnodion yn nodi pob trosedd a arweiniodd at ddedfryd o garchar ond dim ond o 1982 ymlaen.
DE AFFRICA	Dim gwybodaeth ar gael o ganlyniad i ad-drefnu ac uno 18 Adran y Llywodraeth sy'n delio gydag addysg yn Ne Affrica.
DENMARC	Gall unigolion gael tystysgrifau ymddygiad da gan yr heddlu. Gall awdurdodau lleol ym Mhrydain sydd angen gwybodaeth am ddinasyddion Danaidd sy'n ymgeisio am swyddi yn y DU lle byddant yn gweithio gyda phlant ysgrifennu at:

Rigspolitichefen
Afdeling G – Koordinatorsektionen
Borups Alle 266
2400 København NV

FFRAINC	Gall unigolion ddangos tystysgrifau yn cynnwys allbrint o wybodaeth sylfaenol amdanynt o'r Cofnodion Troseddol Cenedlaethol. Dim darpariaeth ar gyfer dadlennu gwybodaeth yn uniongyrchol gan awdurdodau Ffrengig i gyflogwyr tramor.
GAIANA	Nid oes tystysgrifau ymddygiad da ar gael.
GHANA	Nid oes modd cael tystysgrifau ymddygiad da fel arfer. Gall unigolion gyflwyno cais i'r heddlu yn Ghana am gadarnhad nad oes ganddynt gofnod troseddol.
GROEG	Yng ngwlad Groeg disgwylir i bob darpar weithiwr cyflogedig, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gyflwyno tystiolaeth gan yr Erlynydd Cyhoeddus yn cadarnhau nad yw wedi cyflawni trosedd yn y gorffennol. Nid oes trefniadau sy'n galluogi awdurdodau/cyflogwyr yn y DU i gael gweld gwybodaeth am gofnodion troseddol dinasyddion Groegaidd yn uniongyrchol.
GWLAD BELG	Gall unigolion gael tystysgrifau ymddygiad da (Certificat de bonnes vies et moeurs) gan y Cymunedau y maent yn byw ynddynt. Gall unigolion sy'n byw ac yn gweithio dramor gael y rhain gan eu llysgenhadaeth.
GWLAD PWYL	Gall unigolion gael tystysgrif ymddygiad da gan Swyddfa Cofnodion Troseddol Gwlad Pwyl. Mae'r dystysgrif yn cynnwys manylion am bob trosedd sy'n cael ei ystyried fel un nad yw wedi 'darfod' – dim ond am 10 mlynedd y cedwir dedfrydau o garchar ar y cofnod, a chedwir troseddau eraill ar y cofnod am 5 mlynedd.
HONG KONG	Nid oes tystysgrifau ymddygiad da ar gael.
INDIA	Gall unigolion gael datganiad yn nodi nad oes ganddynt gofnod troseddol gan eu heddlu lleol neu Swyddogion Cofnodi yn India.
IWERDDON	Dim trefniadau lleol ar gyfer archwilio cofnodion troseddol ac eithrio ar gyfer darpar rieni mabwysiadu a rhieni maeth. Dim trefniadau ar gyfer dadlennu gwybodaeth i ddarpar gyflogwyr yn y DU.

JAMAICA	Gall unigolion gyflwyno cais i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn Jamaica er mwyn canfod a gedwir cofnod ai peidio. Os na chedwir cofnod, yna bydd Heddlu Jamaica'n rhoi tystysgrif yn nodi hynny. Os deuir o hyd i gofnod, yna anfonir datganiad yn cynnwys manylion am y troseddau a'r cosbau dilynol.
JAPAN	Gall unigolion gael tystysgrif gan yr heddlu. Os yw'r ymgeisydd yn byw dramor cyflwynir y dystysgrif gan Asiantaeth Genedlaethol Heddlu Japan. Os yw'r ymgeisydd yn byw yn Tokyo, cyflwynir y dystysgrif gan Adran Heddlu'r Brifddinas. Dyma'r trefniadau cyffredinol ar gyfer cael tystysgrif: 1. Rhaid i'r ymgeisydd ddangos ei basport neu ei gofrestrriad teuluol. 2. Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu set o olion ei fysedd. 3. Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu dogfen yn egluro cyfraith reoliadol y llywodraeth sydd angen y dystysgrif. Yn olaf, rhaid cyflwyno tystysgrif yr heddlu i'r ymgeisydd yn bersonol mewn amlen wedi ei selio. Mae'r amodau ar gyfer cyflwyno tystysgrif fel a ganlyn: rhaid i'r Weinyddiaeth Materion Tramor wneud cais am dystysgrif yr heddlu, neu mewn achosion lle mae tystysgrif yr heddlu yn hanfodol, ac y byddai'r ymgeisydd dan anfantais sylweddol pe na bai ganddo un, gall unigolion gyflwyno ceisiadau yn uniongyrchol i Asiantaeth Genedlaethol Heddlu Japan. Dylai Dinasyddion Japaneaidd sydd angen mwy o wybodaeth gysylltu â Llysgenhadaeth Japan yn Llundain.
LIBANUS	Gall unigolion gael tystysgrif yn nodi nad oes ganddynt gofnod troseddol, sy'n ddilys am 3 mis o'r dyddiad y cyflwynir hi, gan Weinyddiaeth Gartref yn Libanus. Er mwyn cael tystysgrif o'r fath, rhaid i'r ymgeisydd fynd yno'n bersonol.
LWCSEMBWRG	Gall unrhyw gyflogwr ofyn i ddarpar weithwyr cyflogedig gael 'Extract du Casier Judicare' gan yr awdurdodau. Byddai'r ddogfen hon yn dangos dedfrydau a arweiniodd at gyfnod yn y carchar. Gall cyflogwyr o'r tu allan i Lwcsembwrg hefyd ofyn am ddogfen o'r fath.
MALAWI	Nid oes tystysgrif ymddygiad da ar gael.

MALEISIA	Nid oes tystysgrif ymddygiad da ar gael.
MALTA	Gall unigolion gael tystysgrif yn nodi a oes ganddynt gofnod troseddol ai peidio gan Bencadlys yr Heddlu ym Malta. Mae'r Weinyddiaeth Addysg ym Malta yn rhoi llythyr geirda i athrawon sy'n gadael eu gwaith. Mae'r geirda'n cyfeirio at ymddygiad, perfformiad a'r rheswm dros adael.
MECSICO	Nid oes tystysgrif ymddygiad da ar gael.
MOROCCO	Gall unigolion gael tystysgrif ymddygiad da gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym Morocco.
NORWY	Gall unigolion gael tystysgrif ymddygiad da gan yr heddlu lleol yn Norwy. Bydd y dystysgrif yn cynnwys manylion am ddedfrydau o garchar ond mae gan yr heddlu hawl i benderfynu a ydynt am gynnwys neu hepgor manylion o gofnodion os ydynt yn credu bod hynny'n briodol.
PACISTAN	Nid oes tystysgrif ymddygiad da ar gael.
PERIW	Gall unigolion gael tystysgrif ymddygiad da gan Heddlu Ymchwiliadau Periw. Y cyfan y mae'r dystysgrif yn ei nodi yw a oes gan unigolyn gofnod troseddol ai peidio.
PORTIWGAL	Gall unigolion gael 'cofnodion troseddol' (a chofnodion clir) i'w dangos i ddarpar gyflogwyr. Dim darpariaeth ar gyfer dadlennu gwybodaeth yn uniongyrchol gan awdurdodau Portiwgal i gyflogwyr tramor.
ROMANIA	Gall unigolion gael tystysgrif ymddygiad da gan Heddlu Romania. Mae'r dystysgrif yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw drosedd y cafwyd yr ymgeisydd yn euog ohono.
RWSIA	Nid oes tystysgrif ymddygiad da ar gael.
SAMBIA	Gall unigolyn wneud cais am dystysgrif ymddygiad da gan yr heddlu lleol ynambia.
SBAEN	Mae llawer o ymgeiswyr am swyddi'n cynnig tystysgrifau enw da a gawsant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn wirfoddol. Dim darpariaeth ar gyfer dadlennu gwybodaeth yn uniongyrchol gan awdurdodau Sbaen i gyflogwyr tramor.
SELAND NEWYDD	Gall unigolion gael gwybodaeth am eu cefndir troseddol (os oes ganddynt gefndir troseddol) gan eu hawdurdodau, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y wlad.
SIERRA LEONE	Rhoddir tystysgrif ymddygiad da fel arfer i unigolion o Sierra Leone sy'n teithio dramor. Ni roddir tystysgrif i unigolion sydd â chofnod troseddol.

SINGAPÔR	Mae'r Weinyddiaeth Addysg yn Singapôr yn rhoi tystysgrifau ymddygiad da i bob athro/athrawes y mae'n ei gyflogi / ei chyflogi. Mae'r dystysgrif yn brawf o gofnod clir.
SWEDEN	Gall unigolion gael tystysgrifau ymddygiad da gan Heddlu Sweden. Mae'r tystysgrifau'n cadarnhau nad oes gan unigolyn gofnod troseddol.
SYRIA	Gall unigolion wneud cais am dystysgrif ymddygiad da gan Heddlu Syria.
TANSANIA	Nid oes tystysgrifau ymddygiad da ar gael fel arfer. Fodd bynnag, mae Gweinyddiaeth Addysg Tansania'n rhoi tystysgrif i weithwyr cyflogedig bob tro y byddant yn newid swydd. Mae'r dystysgrif yn gofnod o wasanaeth gyda sylwadau am berfformiad a chymeriad.
TIWNISIA	Gall unigolion wneud cais i Heddlu Lleol Tiwnisia am ddatganiad yn nodi nad oes ganddynt gofnod troseddol.
TSIEINA	Gall unigolion gael tystysgrif gan eu cyflogwr diwethaf a fydd â ffeil bersonol ar gyfer pob gweithiwr cyflogedig, yn rhestru unrhyw gofnodion troseddol. Cadarnheir y dystysgrif gan y Weinyddiaeth Materion Tramor.
TWRCI	Gall unigolion gael tystysgrif drwy wneud cais i'w Cyfreithiwr Rhanbarth Lleol a'r Weinyddiaeth Gartref yn Nhwrçi.
UNOL DALEITHIAU AMERICA	Gall unigolion gael tystysgrif yn dwyn y teitl 'Criminal Record Check' gan eu heddlu lleol, ond dim ond collfarnau yn y dalaith y mae'r unigolyn yn byw ynddi fydd wedi eu nodi (os oes rhai). Nid oes unrhyw le canolog y gall unigolyn fynd iddo er mwyn cael tystysgrif sy'n nodi collfarnau ym mhob rhan o'r Unol Daleithiau.
WGANDA	Gall unigolion gael tystysgrif ymddygiad da naill ai gan y Swyddog Addysg Rhanbarthol neu gan Swyddfa'r Comisiynydd Addysg yn Wganda.
Y FFINDIR	Gall unrhyw ddinesydd wneud cais am dystysgrif ymddygiad da gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd ag asiantaeth yn dwyn yr enw Swyddfa Cofrestr Troseddau (RIKOSTREKISTERT). Os yw person wedi ei gael yn euog o drosedd mewn llys barn, nodir hynny ar y dystysgrif. Os nad yw, bydd y dystysgrif yn cadarnhau bod gan y person enw da ac yn nodi nad oes ganddo gofnod troseddol.
Y SWISTIR	Nid oes tystysgrifau ymddygiad da ar gael. Fodd bynnag, dylai unigolion allu cael dogfen debyg i Casier Judiciaire gan Heddlu'r Swistir.

Y TRAETH IFORI	Mae Casier Judiciare ar gael. Rhaid i unigolion yn gyntaf gael tystiolaeth gan heddlu'r Traeth Ifori nad oes ganddynt gofnod troseddol.
YNYSOEDD Y PHILIPINOS	Gall unigolyn gael tystysgrif ymddygiad da gan Swyddfa Genedlaethol Ymchwiliadau Ynysoedd y Philipinos. Bydd y dystysgrif yn cynnwys manylion am bob trosedd a fyddai wedi arwain at erlyniad gan Awdurdodau Lleol Ynysoedd y Philipinos.
YR AIFFT	Nid oes modd cael tystysgrifau ymddygiad da fel arfer. Bydd Gweinyddiaeth Addysg yr Aifft yn rhoi tystysgrif i unrhyw athro/athrawes sy'n dymuno gweithio dramor ar ôl cadarnhau nad oes gan yr athro/athrawes gofnod troseddol.
YR ALMAEN	Mae'r gyfraith ffederal yn nodi y gall unigolion gael tystysgrifau ymddygiad da neu wneud cais am rannau o'r gofrestr gosbi. Dylai awdurdodau lleol y DU ofyn i ddechrau am gael gweld tystysgrif ymddygiad da dinesydd Almaenaidd. Mewn achosion eithriadol iawn a phan fo angen mwy o wybodaeth, gallai awdurdod gysylltu â'r Gweinidog Cyfiawnder Ffederal yn Bonn. Bydd ef/hi yn penderfynu a ellir datgelu mwy o wybodaeth.
YR ARIANNIN	Gall unigolion gael tystysgrif ymddygiad da gan eu heddlu lleol yn yr Ariannin, a bydd yn rhoi manylion am unrhyw achos gan gynnwys achosion sy'n aros i gael eu cynnal yn erbyn unigolyn. Edrychir ar olion bysedd a'u cymharu â'r Cofnodion Troseddol Canolog.
YR EIDAL	Gall unigolion gael tystysgrif ymddygiad da gan yr Ufficio Casellario perthnasol. Byddai'r dystysgrif hon yn dangos troseddau a arweiniodd at gyfnod yn y carchar. Gall unigolion sy'n byw ac yn gweithio dramor gael tystysgrifau o'r fath drwy eu llysoenhadaeth.
YR ISELDIROEDD	Gall cyflogwyr ofyn i unigolion gael tystysgrif ymddygiad da gan y Burgemeister. Byddai'r dystysgrif hon yn cynnwys manylion am gollfarnau ac adroddiadau ar brosesau llafar. Yn ymarferol, byddai'r Burgemeister hefyd yn ymgynghori â'r Parket lleol (h.y. rhanbarth llysoedd) ar gyfer yr ardal y ganwyd yr ymgeisydd ynddi. Dim darpariaeth ar gyfer dadlennu gwybodaeth yn uniongyrchol gan awdurdodau'r Iseldiroedd i gyflogwyr tramor.